

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 14 Chwefror 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

51(v4)

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

Cwestiwn Brys

I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:

Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad yn dilyn adroddiad Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y cwmni Kancoat o Abertawe?

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

- 3 **Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Chwaraeon Cymru**
(45 munud)

- 4 **Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Cymunedau Cryf – Camau Nesaf**
(45 munud)

- 5 **Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Sefydlu'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth**
(45 munud)

Dogfennau Ategol:

[Grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerdd yng Nghymru](#)
[Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Ensembles Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru](#)

- 6 **Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017**
(15 munud)

NDM6234 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2017

Dogfennau Ategol

[Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg \(Achredu Hyfforddiant Cychwynol Athrawon\) \(Swyddogaethau Ychwanegol\) \(Cymru\) 2017](#)

[Memorandwm Esboniadol](#) (Saesneg yn unig)

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#)

7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

(15 munud)

NDM6233 [Kirsty Williams \(Brycheiniog a Sir Faesyfed\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau yn y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil sy'n ymwneud â graddio addysg uwch, cymorth ariannol i fyfyrwyr, y cynllun annibynnol ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr a chymorth ar gyfer ymchwil, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

[Gosodwyd](#) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd ac fe'i [diwygiwyd](#) ar 1 Rhagfyr. [Gosodwyd](#) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Ionawr yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Dogfennau Ategol

[Bil Addysg Uwch ac Ymchwil](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol](#)

8 Dadl: Morlynnoedd Llanw

(60 munud)

NDM6237

[Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

[Paul Davies \(Preseli Sir Benfro\)](#)

[Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

1. Croesawu Adroddiad Hendry a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n cefnogi'r achos dros ddatblygu diwydiant ynni morlynnoedd llanw ym Mhrydain.
2. Cydnabod yr angen i Lywodraeth Prydain gysylltu â Llywodraeth Cymru yn barhaus wrth ddatblygu a gweithredu polisiau ar gyfer morlynnoedd llanw.
3. Cydnabod, wrth sicrhau y trawsnewidiad i economi carbon isel, y dylai Cymru gael cymaint o fanteision economaidd â phosib o'r diwydiant ynni morlynnoedd llanw a thechnolegau llanw eraill, ar yr amod bod prosiectau o'r fath yn derbyn y gymeradwyaeth angenrheidiol.

Dogfen Ategol

[Adroddiad Hendry](#)

9 Dadl: Setliad yr Heddlu 2017–18

(30 munud)

NDM6235 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2017–2018 (Setliad Terfynol –

Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd). [Gosodwyd](#) copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2017.

Dogfen Ategol

[Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol \(Rhif 2\) 2017–2018 \(Setliad Terfynol – Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd\)](#)

10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 15 Chwefror 2017